



Ein cyf/Our ref MA/LW/2256/21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[REDACTED]
Grŵp Gweithredu Llosgydd y Dociau
[REDACTED]

29 Gorffennaf 2021

Annwyl _____

1. Yn 2017, gwnaethoch ofyn i Lywodraeth Cymru, ar ran Grŵp Gweithredu Llosgydd y Dociau (DIAG), am i'r angen am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) gael ei adolygu mewn perthynas â'r datblygiad gan Biomass No.2 UK Ltd. yn Noc y Barri ym Mro Morgannwg.
2. Ers hynny, mae DIAG wedi codi sawl pwynt ynglŷn â'r angen am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn gyffredinol ac ynglŷn ag agweddau penodol ar yr achos hwn. Rwyf wedi ystyried yr holl sylwadau a gyflwynwyd, sydd wedi llywio'r ystyriaeth a roddais i'r achos hwn isod.

Y datblygiad

3. Rhoddodd Cyngor Bro Morgannwg ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer gweithfa ynni adnewyddadwy sy'n llosgi pren ar 31 Gorffennaf 2015 (rhif cyfeirnod 2015/00031/OUT).
4. Cafodd cais cynllunio (rhif cyfeirnod 2017/01080/FUL) ei gyflwyno wedyn o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"). Roedd hwn yn gais i amrywio amod a oedd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio 2015/00031/OUT gan ei gwneud yn bosibl i danc dŵr tân gael ei ychwanegu a lleoedd parcio gael eu hadleoli.

Yr angen i gynnal AEA

5. Mae'r Rheoliadau AEA yn trosi Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2011/92/EU, fel y'i diwygiwyd yn 2014 gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU ("Cyfarwyddeb AEA") ar asesu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

6. effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref.
7. Mae Cyfarwydddeb AEA yn ei gwneud yn ofynnol i AEA gael ei gynnal cyn y rhoddir caniatâd ar gyfer datblygiad sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd oherwydd, ymhlith pethau eraill, ei natur, ei faint neu ei leoliad.
8. AEA yn gymwys iddynt yn Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau AEA. Mae angen cynnal AEA bob amser ar gyfer datblygiad sy'n ateb y disgrifiad o brosiect a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau AEA. Dim ond os yw'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd y bydd angen cynnal AEA ar gyfer datblygiad sy'n ateb disgrifiad yn Atodlen 2. Mae'r ymadrodd "yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd" yn golygu rhywbeth sy'n fwy na'r posibilrwydd lleiaf, er y bydd unrhyw bosibilrwydd difrifol yn ddigon.

Y llythyr o fwriad i gyfarwyddo

8. Cyn iddo gael ei dynnu'n ôl, roedd cais cynllunio 2017/01080/FUL gerbron Cyngor Bro Morgannwg er mwyn iddo benderfynu arno pan ddechreuwyd ystyried a ddylid cynnal AEA mewn perthynas â'r cais.
9. Ar 14 Chwefror 2018, hysbysodd Gweinidogion Cymru ddatblygwr y weithfa eu bod yn bwriadu cyfarwyddo bod angen cynnal AEA mewn perthynas â'r cais. Ymatebodd y datblygwr i'r llythyr a chyhoeddwyd yr ymateb mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth, y gellir ei weld yn [Datganiad rhyddid gwybodaeth: Gohebiaeth Biomass Ltd | LLYW.CYMRU](#).
10. Mae cais a wneir o dan adran 73 o Ddeddf 1990 yn gais am ganiatâd cynllunio ac, o dan gyfraith ddomestig, rhoddir caniatâd cynllunio newydd. Anfonwyd y llythyr 'o fwriad' ar y sail bod caniatâd cynllunio newydd yn cyfateb i gydsyniad datblygu fel y'i diffinnir yng Nghyfarwydddeb AEA. Felly, dechreuodd yr ystyriaeth sgrinio a geir yn y llythyr o'r safbwynt bod angen ystyried y datblygiad cyfan (sef testun y caniatâd cynllunio newydd) wrth benderfynu a oes angen cynnal AEA. Nododd y llythyr o fwriad pam yr ystyriwyd bod y weithfa yn perthyn i gategori prosiectau 10 a nodir yn Atodlen 1.
11. Yn dilyn y sylwadau a gyflwynwyd gan y datblygwr a DIAG, rwyf wedi ailystyried a yw'r dull gweithredu a nodir ym mharagraff 10 yn gywir a deuthum i'r casgliad y dylid ystyried ceisiadau o dan adran 73 fel newidiadau neu estyniadau i brosiectau, er bod ceisiadau llwyddiannus yn arwain at ganiatâd cynllunio newydd.

Statws AEA y cais cynllunio amlinellol

12. Mae gan Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau AEA categorïau o brosiectau sy'n ymwneud â newidiadau neu estyniadau i brosiectau. Felly, mae categori prosiectau perthnasol cais o dan adran 73 yn dibynnu ar gategori prosiectau'r brosiect gwreiddiol. Mae'r ystyriaeth a roddais i'r cais o dan adran 73 a'r ystyriaeth ganlyniadol a roddwyd i'r caniatâd cynllunio amlinellol wedi fy arwain i amau a gafodd AEA ei ystyried yn briodol ar y cam cynharach hwn.
13. Penderfynodd Cyngor Bro Morgannwg nad oedd angen cynnal AEA mewn perthynas â chais cynllunio 2015/00031/OUT pan benderfynwyd ar y cais hwnnw ar 31

Gorffennaf 2015. Polisi Llywodraeth Cymru yw peidio ag adolygu penderfyniadau cynllunio awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, er bod y Deyrnas Unedig wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gydweithio'n ddiffuant er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chyfraith Ewrop ac, am y rheswm hwn, rwyf wedi ystyried unwaith eto a ddylid bod wedi cynnal AEA.

14. Roedd cais cynllunio 2015/00031/OUT yn ceisio caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer gweithfa ynni adnewyddadwy sy'n llosgi pren. Roedd Cyngor Bro Morgannwg o'r farn bod y datblygiad yn perthyn i gategori prosiectau 11(b), sef gosodiadau ar gyfer gwaredu gwastraff, yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau AEA a oedd mewn grym ar y pryd (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 1999) ("Rheoliadau AEA 1999"). Daeth ei ddadansoddiad i'r casgliad nad oedd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd ac, felly, nad oedd angen cynnal AEA.
15. Yn fy marn i, y dull cywir o asesu a oedd angen cynnal AEA ar gyfer y cais amlinellol oedd dechrau o'r sail bod y cais yn gyfystyr â newid neu estyniad i brosiect presennol. Y rheswm dros hyn yw bod caniatâd cynllunio cynharach yn dal i fodoli ar adeg cyflwyno'r cais. Rhoddwyd caniatâd cynllunio 2008/01203/FUL ar gyfer codi adeilad diwydiannol newydd a gosod gweithfa ynni adnewyddadwy 9MW yn dilyn apêl ar 2 Gorffennaf 2010 ("caniatâd 2010"). Roedd y caniatâd hwn yn ddilys tan fis Gorffennaf 2015 a chyflwynwyd y cais dilynol ym mis Ionawr 2015 ac fe'i dilyswyd ym mis Chwefror 2015. Roedd y caniatâd a oedd yn bodoli ar gyfer gwaith nwyeddio sy'n defnyddio pyrolysis i greu nwy synthesis. Roedd y cais cynllunio amlinellol yn ceisio newid y dechnoleg nwyeddio at ddefnydd gwely hylifol ond, fel arall, roedd ar gyfer yr un prosiect, er gwaethaf newidiadau i gynllun a gweddoluniau'r safle.

Caniatâd 2010

16. Wrth ystyried y cais, rhoddwyd sawl cyfarwyddyd sgrinio gan Weinidogion Cymru a arweiniodd, yn y pen draw, at llythyr dyddiedig 23 Rhagfyr 2009. Mae paragraff 4 o'r llythyr yn nodi bod ansicrwydd ynghylch y ffordd y dylid ystyried pyrolysis yng nghydestun AEA. Er i'r llythyr ddod i'r casgliad nad oedd angen cynnal AEA, roedd y broses apelio a roddodd ganiatâd 2010 wedi'i hategu gan Ddatganiad Amgylcheddol, a ystyriwyd yn y penderfyniad.
17. Ar ôl ailystyried y categorïau perthnasol o brosiectau, rwyf bellach o'r farn y dylai ystyriaeth fwy priodol fod wedi cael ei rhoi i'r datblygiad arfaethedig a nodwyd yng nghaniatâd 2010 fel un sy'n perthyn i gategori 10 o Atodlen 1 i Reoliadau AEA 1999. Y rheswm dros hyn yw bod y cynnig yn gyfystyr â gwaredu gwastraff drwy ddefnyddio proses losgi neu driniaeth gemegol gyda chapasiti dros y trothwy perthnasol.
18. Roedd Categori 10 o Atodlen 1 i Reoliadau AEA 1999 yn cynnwys:
"waste disposal installations for the incineration or chemical treatment (as defined in Annex IIA to Council Directive 75/442/EEC* under heading D9) of non-hazardous waste with a capacity exceeding 100 tonnes per day."

*(bellach Atodiad I i Gyfarwydddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor)

Gwaredu gwastraff

19. Byddai'r pren a fyddai wedi cael ei brosesu gan y weithfa wedi bod yn bren gwastraff. At ddibenion AEA, mae gwaredu gwastraff yn cynnwys adfer gwastraff, fel yr esbonnir

mewn cyngor ar gategori prosiectau 10, a geir yng nghyhoeddiad y Comisiwn Ewropeaidd, "Interpretation of definitions of project categories of annex I and II of the EIA Directive". Gan y byddai'r datblygiad wedi ceisio adfer ynni o wastraff drwy broses nwyeddio, rwyf o'r farn bod y broses adfer hon yn gyfystyr â 'gwaredu gwastraff'.

Llosgi neu driniaeth gemegol

20. O ran y dull o drin gwastraff, rwyf o'r farn bod pyrolysis yn dod o fewn cwmpas naill ai llosgi neu driniaeth gemegol fel y cyfeirir atynt yn y categori o brosiectau. Os nad yw pyrolysis yn gyfystyr â llosgi, yna rwy'n glir y byddai'n cael ei gwmpasu gan yr elfen triniaeth gemegol o'r categori o brosiectau. Mae Atodiad II i Gyfarwyddeb 75/442/EEC (a bellach Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/98/EC) yn diffinio triniaeth gemegol o dan bennawd D9 fel: 'Physico-chemical treatment not specified elsewhere in this Annex which results in final compounds or mixtures which are discarded by means of any of the operations numbered D 1 to D 12 (e.g. evaporation, drying, calcination, etc.)'
21. Mae trin pren gwastraff drwy ei nwyeddio drwy byrolysis yn gyfystyr ag ocsideiddio rhannol ac, yn yr achos hwn, mae'r cyfansoddyn a gynhyrchir o ganlyniad i'r broses, sef nwy synthesis, yn cael ei losgi wedyn i adfer ynni. Mae hyn yn golygu bod nodweddion y datblygiad hwn yn ateb y disgrifiad o brosiect ym mharagraff 10 o Atodlen 1 i Reoliadau AEA 1999 p'un ai llosgi neu driniaeth ffysigogemegol yw'r broses.

Capasiti

22. Agwedd arall ar y disgrifiad o'r prosiect yw faint o wastraff sy'n cael ei drin. Cyfyngodd y Caniatâd Cynllunio gyfanswm y porthiant i 72,000 o dunelli sych o bren gwastraff y flwyddyn. Yn seiliedig ar weithrediadau dros 365 diwrnod y flwyddyn, byddai hyn yn cyfateb i gapasiti dyddiol o 197 o dunelli y dydd o leiaf, ar gyfartaledd. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r trothwy o 100 o dunelli a ddisgrifir yn y categori o brosiectau.

Caniatâd Amlinellol 2015

23. Ar ôl cadarnhau bod y cais cynllunio amlinellol ar gyfer newid datblygiad a oedd wedi cael caniatâd cynllunio (gweler paragraff 15), bu'n rhaid i mi ystyried a yw cais 2015 yn perthyn i gategori prosiectau 21 a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau AEA 1999. Dywed:
 21. Any change to or extension of development listed in this Schedule where such a change or extension itself meets the thresholds, if any, or description of development set out in this Schedule.
24. Mae proses y gwely hylifol yn broses trin gwastraff a byddai gan y weithfa newydd a fyddai'n cael ei gosod yn lle'r dechnoleg pyrolysis gapasiti o fwy na 100 o dunelli y dydd. Felly, mae'n ateb y disgrifiad o gategori prosiectau 10 (gosodiadau gwaredu gwastraff ar gyfer llosgi gwastraff nad yw'n beryglus neu ei drin â chemegau) ac mae hefyd yn fwy na chapasiti'r categori hwnnw. Am y rheswm hwn, rwyf o'r farn bod y cais cynllunio amlinellol ar gyfer prosiect yn Atodlen 1 ac, felly, y byddai wedi bod angen cynnal AEA.

Dyletswydd i gydweithio'n ddiffuant

25. Er bod y DU wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae telerau'r Cytundeb Ymadael yn golygu bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gydweithio'n ddiffuant o hyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer unrhyw bwerau sydd ar gael iddynt o dan gyfraith ddomestig i atal y weithfa rhag dechrau gweithredu nes i AEA gael ei gynnal, os bydd cymryd camau o'r fath yn gyfreithlon ac yn gymesur.
26. Mae'r cyfnod ar gyfer herio'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio drwy Lysoedd Cymru a Lloegr wedi hen fynd heibio. Felly, y pŵer perthnasol sydd ar gael i Weinidogion Cymru yw gwneud gorchymyn dirwyn i ben o dan adrannau 102 a 104 o Ddeddf 1990.
27. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ystyried a ddylid defnyddio gorchymyn dirwyn i ben i fynnu bod AEA yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'r datblygwr wedi gwirfoddoli i baratoi datganiad amgylcheddol. Llunio datganiad yw'r cam cyntaf ym mhroses AEA a nodir yn y Rheoliadau AEA. Fel arfer, byddai'n cael ei ddilyn gan ymgynghoriad cyhoeddus, sef yr hyn a gynigiwyd yn natganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru dyddiedig Mai 2019.
28. Er bod y gwaith o adeiladu'r weithfa wedi'i chwblhau, nid yw wedi dechrau gweithredu'n fasnachol eto. Am ei bod yn debygol o ddechrau gweithredu'n fuan ac nad yw AEA wedi'i gynnal eto, mae'n rhaid i mi ystyried a ddylid gwneud penderfyniad ffurfiol i atal y weithfa rhag gweithredu'n llawn tra bod AEA yn cael ei gynnal, er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i gydweithio'n ddiffuant. Ni fydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar y penderfyniad y bydd angen ei wneud yn y dyfodol ar ôl ymgynghori ar y datganiad amgylcheddol, er mwyn ystyried goblygiadau unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a nodwyd a'r camau y bydd angen eu cymryd o ganlyniad. Felly, ar gyfer y penderfyniad presennol hwn, rwyf wedi ystyried a yw gwneud gorchymyn dirwyn i ben er mwyn atal gweithrediadau tra bod AEA yn cael ei gynnal yn gyfreithlon ac, os ydyw, a yw gwneud hynny yn ymateb cymesur.
29. Mae adran 104 o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn dirwyn i ben o dan adran 102 os ymddengys iddynt fod gwneud gorchymyn o'r fath yn fuddiol. Ym Mholisi Cynllunio Cymru mae Gweinidogion Cymru yn nodi:
 - a. mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir cyfiawnhau defnyddio'r pŵer, a
 - b. mai dim ond os bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd, y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn fel arfer.
30. Mae gwneud penderfyniadau yn unol â'r gyfraith er budd y cyhoedd. Mae'r Rheoliadau AEA yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau cynllunio ystyried y wybodaeth amgylcheddol am effeithiau sylweddol tebygol datblygu ar yr amgylchedd. Mae diffyg gwybodaeth amgylcheddol yn amharu ar allu'r cyhoedd i gyfranogi'n llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn atal y sawl sy'n penderfynu ar gais rhag cael gwybodaeth lawn am yr effeithiau sylweddol tebygol, a gallai olygu bod cyfle yn cael ei golli i gymhwyso mesurau lliniaru at y datblygiadau hynny sy'n mynd yn eu blaen.

Effeithiau Amgylcheddol

31. Byddai budd y cyhoedd yn cael ei niweidio pe bai'r datblygiad yn cael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd heb fod AEA wedi cael ei gynnal yn briodol. Byddai'r ffaith bod y datblygiad yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ffactor pwysig a fyddai'n pwysu o blaid cymryd camau wrth ystyried a fyddai'n fuddiol atal gweithrediadau dros dro.
32. Mae'r weithfa yn segur ar hyn o bryd ond gallai fod yn llawn weithredol ar ôl rhaglen ailgomisiynu fer. Po hiraf a gymer i ymgynghori ar y datganiad amgylcheddol, y mwyaf tebygol ydyw y bydd gweithrediadau llawn yn dechrau a bydd yr effeithiau amgylcheddol llawn sy'n gysylltiedig â hyn yn digwydd. Rwy'n aros gyda meddwl agored am y posibilrwydd y caiff effeithiau sylweddol tebygol eu nodi gan ymgynghoreion drwy'r broses ymgynghori. Yn y cyfamser, at y diben cyfyngedig o ystyried pa mor fuddiol fyddai atal gweithrediadau yn ffurfiol, rwyf wedi ystyried yr effeithiau disgwylidig a nodir yn y wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd gyda chais amlinellol 2015/00031/OUT, y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais am drwydded amgylcheddol a'r dadansoddiad dilynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf hefyd wedi ystyried adroddiadau a luniwyd gan Gyngor Tref y Barri.
33. Rwyf hefyd yn ystyried y datganiad amgylcheddol a gyflwynwyd yn wirfoddol gan y datblygwr ym Mis Medi 2019 er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad a'r dadansoddiad dilynol o'r wybodaeth honno gan WSP ar ran Gweinidogion Cymru a nododd sawl bwlch yn y wybodaeth. Rwyf hefyd yn ystyried y datganiad amgylcheddol newydd a gyflwynwyd yn wirfoddol gan y datblygwr ym mis Ebrill 2021, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd, er fy mod yn ymwybodol nad ymgynghorwyd arno eto, a fydd yn digwydd ym mis Medi.
34. Mae fy nadansoddiad yn canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol hynny a allai fod yn sylweddol yn ystod y cyfnod tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal. Rwy'n disgwyl i weddill proses yr AEA gymryd pedwar mis.

Ansawdd aer

35. Mae ansawdd aer yn fater arbennig o ddadleuol. Nodaf eich bod yn anghytuno â'r gwaith modelu a wnaed gan y datblygwr.
36. Cyflwynwyd Asesiad o Uchder Stac gyda chais cynllunio amlinellol 2015/00031/OUT, a baratowyd gan Stopford Energy ac Environment ac a ddaeth i'r casgliad bod stac 43m o uchder yn briodol ar gyfer Crynodiad Nitrogen Deuocsid Cymedrig Blynyddol dibwys.
37. Paratowyd asesiad pellach o ansawdd aer gan Entran Ltd. Defnyddiodd yr asesiad hwn waith modelu ansawdd aer i ragweld yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag allyriadau o'r stac ar y safle. Ar gyfer uchder y stac arfaethedig, rhagwelir y bydd crynodiadau uchaf y broses oddi ar y safle ymhell o fewn y safonau ansawdd aer perthnasol ar gyfer yr holl lygryddion a ystyriwyd. Aseswyd bod arwyddocâd yr effeithiau yn ddibwys ar gyfer iechyd dynol.
38. Mae Entran hefyd yn rhagweld y bydd cyfraniadau disgwylidig y broses yn ddibwys o gymharu â'r lefelau critigol a'r llwythi critigol ar safleoedd cynefinoedd sensitif statudol

gerllaw. Yr unig broblem a nodwyd gan y gwaith oedd effaith a allai fod yn sylweddol ar gyfer dyddodi nitrogen maethol a ragwelir mewn coetir hynafol yn Lôn Hayes.

39. Mae'n rhaid i'r adroddiad gan Entran gael ei ystyried â gofal mawr oherwydd diamedr y fflw a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith modelu, y mae WSP yn nodi iddo gael ei gynyddu i 2.75 metr pan gynyddwyd uchder y stac arfaethedig i 43 metr. Fodd bynnag, defnyddiwyd y gwaith hefyd ar gyfer y cais am Drwydded Amgylcheddol ar gyfer y safle. Roedd mater diamedr y fflw yn destun gohebiaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r datblygwr. Wrth benderfynu ar y Cais am Drwydded, bodlonwyd CNC drwy'r ddeialog â'r datblygwr fod casgliadau'r adroddiad yn dal i fod yn ddilys. Felly, nid oedd CNC yn pryderu ynghylch y dyddodi rhagweledig ar gyfer safle Lôn Hayes ac rwy'n cytuno â'i safbwynt, o ystyried cyfraniad rhagweledig y broses o'r weithfa.
40. Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau'r Cais am Drwydded gan Capita plc ar gyfer Cyngor Tref y Barri. Cododd Capita nifer o faterion a gwnaeth nifer o sylwadau yn ystod y broses adolygu a arweiniodd at gyflwyno gwybodaeth ddiwygiedig, yn enwedig mewn perthynas â'r cynllun atal tân (ystyriar tân ym mharagraffau 49-52 isod). Roedd sylwadau Capita mewn perthynas ag ansawdd aer yn cynnwys materion yn ymwneud â chysondeb rhwng y wybodaeth wreiddiol a'r gwaith diwygiedig a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd. Nid wyf yn ymwybodol bod yr ymholiadau penodol hyn wedi'u hesbonio wedyn gan yr ymgeisydd ond ystyriodd CNC y materion a godwyd wrth benderfynu a ddylid rhoi'r Drwydded Amgylcheddol.
41. Ar gyfer y cais am Drwydded Amgylcheddol, ystyriodd CNC yr asesiad o'r sefyllfa sylfaenol a'r gwaith modelu gwasgariad a wnaed mewn perthynas â'r allyriadau rhagweledig. Mae'r gwaith asesu yn nodi amrywiaeth eang o lygryddion sy'n debygol o gael eu hallyrru gan y weithfa. Fodd bynnag, daeth asesiad CNC o'r gwaith i'r casgliad na fyddai'r allyriadau o'r weithfa yn achosi crynodiadau llygryddion a fyddai'n niweidio pobl neu'r amgylchedd ehangach ac rwy'n cytuno â'r casgliad hwnnw. Er bod CNC wedi rhybuddio'r cwmni ynghylch torri amodau ei drwydded yn ystod gwaith comisiynu, nid aethpwyd y tu hwnt o amcanion ansawdd aer. Nid yw gweithgarwch monitro ansawdd aer yn ystod gwaith comisiynu yn dangos unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i'r terfynau a nodir yn y drwydded amgylcheddol. Rwy'n fodlon bod y dystiolaeth yn dangos na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd tra bod AEA yn cael ei gynnal.

Newid yn yr hinsawdd

42. Mae'r broses nweiddio yn arwain at allyriadau sy'n cael effaith y tu hwnt i'r ardal leol. Er nad yw'r datganiad amgylcheddol gwirfoddol yn ymdrin â'r mater hwn, fe'i hystyriwyd yn fanwl yn ystod y broses drwyddedu amgylcheddol ac rydym yn fodlon bod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddigonol. Cyflwynodd yr ymgeisydd am y drwydded gyfrifiadau o Botensial Cynhesu Byd-eang y weithfa gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir mewn canllawiau llorweddol a gyhoeddwyd neu a gymeradwywyd gan CNC. Cyfrifir y Potensial Cynhesu Byd-eang net yn seiliedig ar yr elfennau canlynol.
43. Ar yr ochr ddebyd
 - Allyriadau CO₂ a achosir drwy losgi'r gwastraff;
 - Allyriadau CO₂ a achsoir drwy losgi tanwyddau ategol neu atodol; □Allyriadau CO₂ sy'n gysylltiedig â'r ynni trydanol a ddefnyddir;
 - N₂O o'r broses de-NO_x.

44. Ar yr ochr gredyd;
 - CO2 a arbedir drwy allforio trydan i'r cyflenwad cyhoeddus yn lle llosgi tanwyddau naturiol ('virgin').
45. Roedd CNC yn fodlon ar asesiad yr ymgeisydd a ddangosodd yr opsiwn a ffefrir ganddo o ran y Dechnoleg Orau sydd Ar Gael ar gyfer y gosodiad o ran Potensial Cynhesu Byd-eang. Mae methodoleg H1 yn cyfrifo'r Potensial Cynhesu Byd-eang fel -32,644 (o dunelli cyfwerth â CO2 y flwyddyn). Ar hyn o bryd, nid oes gennyf unrhyw reswm dros anghytuno â chasgliad CNC bod y cynnig yn cynnwys y Dechnoleg Orau sydd ar Gael a dof i'r casgliad nad yw'r effaith o ran newid yn yr hinsawdd yn sylweddol.

Systemau draenio

46. Mae cynllun y weithfa yn cadw gollyngiadau i ddŵr wyneb a gollyngiadau i garthffosydd budr ar wahân. Caiff unrhyw gemegion peryglus sy'n cronni yn y gwaith lleihau allyriadau i'r awyr eu symud oddi ar y safle fel solidau. Nododd CNC, wrth iddo benderfynu ar y Drwydded Amgylcheddol, y bydd gollyngiadau i garthffosydd budr yn cynnwys elifion prosesu ar ffurf gollyngiadau dŵr gwastraff ('blowdown') o foeleri a gollyngiadau o waith trin dŵr. Rwy'n cytuno â'i asesiad nad yw'r risg amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gollwng elifion prosesu i garthffos yn sylweddol, am nad oes unrhyw elifion dyfrllyd yn gysylltiedig ag unrhyw ran o'r gwaith lleihau allyriadau i'r awyr.
47. Mynegwyd pryder bod y garthffos gyhoeddus yn llifo'n uniongyrchol i Ddoc y Barri. Rwy'n ymwybodol o drefniadau gorlifo ar gyfer y garthffos dŵr wyneb a dŵr budr cyfun yn yr ardal ac ymchwiliad sy'n mynd rhagddo i ollyngiadau ychwanegol o ollyngfa carthffos gyfun i'r doc sydd uwchlaw'r lefel a ganiateir. Fodd bynnag, er bod problemau byrdymor i'w datrys gan Dŵr Cymru mewn perthynas â'r system garthffosydd, rwy'n fodlon nad ydynt yn broblemau a fydd yn cael eu gwaethygu gan y weithfa fiomas. Ni wrthwynebodd Dŵr Cymru y cais ac mae'n dal i fod yn gyfrifol am roi caniatâd ar gyfer elifion gwastraff masnachol mewn ffordd gyfrifol, gan sicrhau bod digon o gapasiti i drin yr elifion a gynhyrchir yn briodol.
48. Lleisiwyd pryder ynghylch llygredd a achosir drwy ddefnyddio dŵr i ymdrin â thanau yn y weithfa. Mae cynllun y weithfa yn cynnwys mesurau i atal dŵr tân rhag dianc. O ganlyniad, dof i'r casgliad nad oes fawr ddim risg y bydd dŵr halogedig yn gollwng, nid yn unig am fod y risg o dân yn isel ond am fod y risg isel y bydd mesurau lliniaru yn methu yn lleihau'r risg o lygredd ymhellach fyth. Rwy'n cydnabod y byddai gollyngiad yn niweidiol iawn i ecosystem y Doc petai'n digwydd ond byddai effaith barhaol gollyngiad yn gyfyngedig a byddai'n effeithio ar y doc yn y lle cyntaf, sy'n lleoliad cyfyngedig heb unrhyw gynefinoedd â blaenoriaeth. Felly, yn fy marn i, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal.

Tân

49. Nodaf fod y risg o dân wedi achosi pryder arbennig, oherwydd ansawdd yr aer a'r risg o lygredd dŵr wyneb. Fel rhan o'r broses Drwyddedu Amgylcheddol, ystyriodd CNC atal tân ac ymateb i dân, mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ystyriodd y gwaith a wnaed gan Capita ar gyfer Cyngor Tref y Barri y mater hwn hefyd.

50. Diwygiwyd y Cynllun Atal Tân a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr sawl gwaith. Fodd bynnag, roedd CNC yn fodlon ar y manylion terfynol a ddarparwyd ar gyfer y Drwydded Amgylcheddol.
51. Trafodir effeithiau tân megis llygredd dŵr ym mharagraff 48. Byddai tân yn rhoi staff ac ymladdwyr tân mewn perygl uniongyrchol. Byddai'r mwg a'r allyriadau yn peryglu trigolion gerllaw ac eraill. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim risg y bydd y peryglon hyn yn codi.
52. Er y byddai tân yn y weithfa yn cael effeithiau amgylcheddol andwyol, mae'r ffaith bod systemau i ymladd tân a'i atal rhan ymledu ar gael yn golygu y bydd yr effeithiau hynny yn rhai dros dro ac na fyddant yn ymledu. Felly, fy marn bresennol i yw nad yw'r effeithiau hynny'n sylweddol ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys iechyd pobl.

Llifogydd

53. Oherwydd ei leoliad arfordirol, mae'r safle yn wynebu risg o lifogydd llanw. Er bod posibilrwydd o 1 mewn 1000 y ceir llifogydd mewn unrhyw flwyddyn ar gyrion y doc, gan gynnwys Heol David Davies, dengys map diweddaraf CNC fod y safle yn wynebu llai o risg o lifogydd. Er bod y risg o lifogydd yn debygol o gynyddu oherwydd cynhesu byd-eang, nid wyf yn argyhoeddedig bod y risg yn un sylweddol ar gyfer y cyfnod tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal.
54. Gan fod y risg o lifogydd yn isel, nid wyf wedi ystyried canlyniadau llifogydd yn fanwl iawn, heblaw am nodi mai ychydig o ddeunyddiau a fyddai'n cael eu gollwng petai llifogydd am y byddent yn cael eu storio mewn cynwysyddion. Petai lefel llifogydd o'r môr mor uchel fel y byddai'n peryglu'r weithfa, byddai'r dinistr ar hyd arfordir De Cymru yn anferth a byddai effaith y weithfa benodol hon ar y sefyllfa hirdymor ar gyfer ecosystemau, o gymharu â'r dinistr hwnnw, yn fach iawn iawn.

Traffig

55. Ystyriodd Datganiad ar Drafnidiaeth, a gyflwynwyd gyda'r cais amlinellol, nifer y symudiadau cerbydau nwyddau trwm (HGV) a fyddai'n gysylltiedig â danfon porthiant a symud lludw oddi ar y safle. Nid yw nifer y symudiadau cerbydau sy'n gysylltiedig â staff yn sylweddol. Fodd bynnag, nodaf y bwriedir i gynllun teithio ddylanwadu ar y dull o deithio i'r safle. Bydd danfon porthiant ar longau yn lleihau symudiadau cerbydau nwyddau trwm ond, oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â danfon porthiant gan ddefnyddio'r dull hwn, rwyf wedi ystyried yr achos gwaethaf er mwyn deall effeithiau tebygol symudiadau traffig.
56. Sŵn ac allyriadau i'r awyr, gan gynnwys yr allyriadau hynny a achosir gan dagfeydd, sy'n cyfrif am brif effeithiau posibl traffig. Cyfrifwyd nifer y symudiadau cerbydau sy'n debygol o gael eu creu gan y datblygiad ar sail uchafswm y porthiant y caniateir iddo gael ei ddefnyddio (72,000 o dunelli sych y flwyddyn). Amcangyfrifwyd y byddai 2,200 o dunelli o ludw yn cael eu symud oddi ar y safle bob blwyddyn. Defnyddiwyd tybiaethau ynglŷn â chapasiti llwyth cerbydau nwyddau trwm sy'n effeithio ar nifer y symudiadau cerbydau ac ystyriwyd trafodaeth ynghylch llwybrau posibl drwy'r Barri. Roedd data cyfrif traffig a ddefnyddiwyd i lywio'r caniatâd cynllunio amlinellol hyd at 2013. Dengys data traffig hyd at 2016 fod lefelau traffig yn debyg, ar y cyfan.

57. Nid oes i'r un o'r ffigurau ar gyfer traffig a ragwelir oblygiadau sylweddol o ran tagfeydd ar rwydwaith priffyrdd y Barri. Fy mhrif bryder yw effaith nifer cynyddol o gerbydau nwyddau trwm ar bobl sy'n byw ac yn gweithio ger y prif lwybrau a ddefnyddir gan gerbydau nwyddau trwm i gyrraedd y safle, yn enwedig ffordd yr A4055 i Gaerdydd. Fodd bynnag, o'u cymharu â'r llifau traffig sylfaenol a ragamcener yn y dyfodol, nid ymddengys fod effeithiau ychwanegol traffig sy'n gysylltiedig â'r safle yn rhai sylweddol.

Yr effaith weledol

58. Mae'r safle wedi'i leoli mewn tirwedd ddiwydiannol, sy'n tystio i'r defnydd blaenorol a wneid ohono fel rhan o'r dociau. Pan edrychir arno o'r ardaloedd preswyl ar yr esgair uwchlaw'r dociau, mae uchder yr adeilad yn ei wneud yn nodwedd amlwg ymhlith yr adeiladau diwydiannol a'r parciau lorïau o'i amgylch. Mae amlygrwydd yr adeilad mawr a'r corn simnai wedi cael effaith negyddol ar yr olygfa ar gyfer preswylwyr sy'n byw uwchlaw'r safle.
59. Rwy'n cytuno â WSP, am fod y weithfa mor fawr, y byddwn yn disgwyl i asesiad mwy trylwyr o'i heffaith weledol gael ei chynnwys mewn datganiad amgylcheddol, rhywbeth y mae datganiad Ebrill 2021 wedi ceisio mynd i'r afael ag ef. Am fod adeiladau'r weithfa wedi'u cwblhau, ni fydd unrhyw benderfyniad i atal gweithrediadau dros dro nad yw'n cynnwys dymchwel unrhyw strwythurau, yn lliniaru effeithiau gweledol na'r effaith ar y dirwedd. Bydd proses yr AEA yn ystyried yr effaith ac, felly, rwyf o'r farn ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliad ynglŷn â'r mater hwn ac nid wyf o'r farn y byddai'n fuddiol atal gweithrediadau dros dro oherwydd y mater hwn.

Gwastraff

60. Mae dwy agwedd ar wastraff yn codi gyda'r prosiect hwn, sef y llif o wastraff sy'n dod i mewn i'w defnyddio fel tanwydd a'r lludw a gynhyrchir fel rhan o'r broses nwyeddio. Ymdrinnir ag allyriadau i'r awyr ym mharagraffau 355 i 411 uchod.
61. Bydd y pren gwastraff a ddanfonir i'r safle eisoes wedi cael ei brosesu er mwyn iddo allu cael ei ddefnyddio yn y broses nwyeddio. Bydd y gwaith a wneir ymlaen llaw i brosesu'r llif o wastraff yn cael effeithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn eu bod yn berthnasol i'r penderfyniad sydd ger fy mron. Nodaf eich pryder ynghylch storio sglodion coed rywle arall ar ystad y Dociau. Er ei bod yn bosibl bod contractau penodol wedi'u llunio i gyflenwi'r weithfa, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y weithfa, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â threfniadau masnachol penodol, o ran ble y gall gaffael sglodion coed. Nid wyf o'r farn bod bodolaeth y weithfa hon, felly, yn achosi effeithiau amgylcheddol yn uniongyrchol rywle arall ac mae modd rheoli unrhyw effeithiau anuniongyrchol drwy reolaethau cynllunio neu drwyddedu amgylcheddol eraill yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r gweithrediadau mewn mannau eraill yn ddigon ar wahân fel na fyddant yn ffurfio rhan o'r un prosiect.
62. Bydd y broses nwyeddio yn cynhyrchu lludw gwastraff o waelod dysgl y gwely hylifol a gweddillion o'r system rheoli llygredd aer wrth iddo lanhau'r nwy fflw a gynhyrchir. Caiff y lludw ei gasglu a'i storio mewn dau gynhwysydd wedi'u selio, gan leihau'r risg y caiff llwch ei ollwng i'r atmosffer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn mai'r broses hon yw'r dechnoleg orau sydd ar gael. Caiff y lludw ei symud oddi ar y safle i'w waredu.

63. Mae'r datblygwr wedi gwneud amrywiol honiadau ynghylch canran y lludw a gynhyrchir o gymharu â'r porthiant. Mae'r Asesiad Cynllunio Gwastraff a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio amlinellol yn amcangyfrif y bydd 8% o ludw gweddilliol ac, yn fwy diweddar, rhagamcenir y bydd 2.8% o ludw nad yw'n beryglus ac 1.8% o ddeunydd peryglus. Mae'r gallu i aildefnyddio lludw nad yw'n beryglus yn golygu bod yr effeithiau amgylcheddol wedi'u cyfyngu'n bennaf i'r broses o'i gludo. Gallai cynhyrchu 'fly ash' sy'n cynnwys deunydd peryglus gael effeithiau sylweddol. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei drin mewn cynwysyddion wedi'u selio yn golygu bod y risgiau ar y safle yn fach iawn. Fodd bynnag, mae'n golygu bod angen neilltuo tir ar gyfer gwaredu deunydd peryglus ac mae risg o lygredd amgylcheddol a niwed i iechyd pobl. Fodd bynnag, nid yw'r gyrchfan yn un sefydlog ac, felly, gellid defnyddio unrhyw safle tipio. Mae'n anodd mesur yr effeithiau pan nad yw'r safle tipio yn hysbys. Y brif risg yw llygru cyrsiau dŵr a llwch peryglus ond, fel y nodwyd mewn perthynas â ffynhonnell y porthiant, mae'r effeithiau yn rhai anuniongyrchol ac fe'u rheolir yn annibynnol ar y prosiect hwn.

Sŵn

64. Mae'r mater hwn yn destun pryder parhaus i Gyngor Bro Morgannwg. Ym marn y Cyngor, nid yw'r gwaith asesu a wnaed gan y datblygwr wedi cydymffurfio'n llawn â'r Safon Brydeinig, megis peidio ag ystyried sŵn tra ergydiol ac amledd isel, rhywbeth a gadarnhawyd gan waith WSP.
65. Gwiriwyd yr asesiad sŵn diwygiedig a gynhaliwyd gan y datblygwr gan waith modelu a wnaed gan CNC. Roedd ei ddadansoddiad yn cynnwys ystyried a oedd sylw priodol wedi'i roi i sŵn tra ergydiol, sŵn amledd isel a materion eraill a godwyd gan y Cyngor. Ei gasgliadau oedd nad oedd sŵn na dirgrynu yn debygol o gael unrhyw effeithiau sylweddol. Rwy'n cytuno â barn CNC a dof i'r casgliad bod effeithiau sylweddol yn annhebygol tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal.

Costau Economaidd a Chymdeithasol

66. Mae costau economaidd a chymdeithasol yn pwysu yn erbyn atal gweithrediadau dros dro tra bydd AEA yn cael ei gynnal, yr amcangyfrifir y bydd yn cymryd pedwar mis.
67. Os caiff gweithgarwch ar y safle ei atal dros dro, gan beri oedi cyn i'r weithfa ddod yn gwbl weithredol tra bydd AEA yn cael ei gynnal, mae'r amser a gymerir i lunio datganiad amgylcheddol yn golygu y bydd y datblygwr yn colli enillion ac na fydd yr economi ehangach yn cael budd o'r swyddi parhaol a gynigir gan y weithfa.
68. Byddai atal gweithgarwch dros dro yn effeithio ar gontractau'r datblygwr â'i gyflenwyr, gan beri risg y byddai'r swyddi a grëwyd ganddynt i gyflenwi'r weithfa yn cael eu dileu. Byddai gwneud gorchymyn o dan adran 102 yn ei gwneud yn bosibl i gais am iawndal gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas ag unrhyw niwed perthnasol (gweler adran 115 o Ddeddf 1990). Er y byddai'n bosibl adennill costau'r datblygwr oddi wrth yr awdurdod, gallai hynny gymryd peth amser ac, yn y pen draw, byddai'r gost yn cael ei thalu o gyllidebau Llywodraeth Leol neu Lywodraeth Cymru sydd o dan gryn bwysau ar hyn o bryd.
69. Gofynnwyd i'r datblygwr roi amcangyfrif o'r costau y byddai'n mynd iddynt o ganlyniad i atal gweithrediadau dros dro am bedwar mis tra byddai AEA yn cael ei gynnal. At hynny, trefnodd Llywodraeth Cymru i amcangyfrif annibynnol o'r costau gael ei wneud. Rwyf wedi ystyried y rhain wrth ddod i'm penderfyniad.

70. Mae'r cais cynllunio amlinellol yn nodi y byddai hyd at 14 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y weithfa. Mae hwn yn ychwanegiad bach at nifer y bobl gyflogedig yn y Barri ond caiff ei ategu gan swyddi yn y gadwyn gyflenwi. Byddai atal y weithfa rhag gweithredu yn atal y budd economaidd hwn rhag cael ei wireddu yn y byrdymor.

Cynllun Datblygu

71. Mae adran 102 o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i sylw gael ei roi i'r cynllun datblygu wrth ystyried a yw'n fuddiol gwneud gorchymyn. Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi, os bydd y cynllun datblygu yn cael ei ystyried at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau cynllunio, fod yn rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Y cynllun datblygu perthnasol yw Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg, a fabwysiadwyd ar 28 Mehefin 2017. Mae'r map o gynigion yn dangos bod y safle yn ddarostyngedig i Bolisi MD16 Safleoedd Cyflogaeth Presennol a Pholisi SP9(4) Diogelu Glanfeydd Tywod a Graean. Er bod gwahanol bolisiau yn y cynllun o blaid datblygu'r safle, mae eraill yn ceisio diogelu derbynyddion o'i amgylch rhag niwed amgylcheddol.
72. Nid yw'r penderfyniad rwy'n ei wneud yn ymwneud â rhinweddau cynllunio llawn parhau i'w ddefnyddio. Yn hytrach, mae a wnelo ag atal gweithrediadau tra bydd AEA yn cael ei gynnal. Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi arweiniad sylweddol ar fater o'r fath.
73. Mae ystyriaethau perthnasol eraill yn cynnwys polisiau cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, yr wyf wedi'u hystyried. Rwyf wedi ystyried ein polisi i seilio penderfyniadau cynllunio ar y lefel fwyaf priodol o wybodaeth. Nodaf hefyd fod Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i amlygiad i lygredd gael ei leihau cymaint â phosibl. Nodir y polisi penodol ar orchmynion dirwyn i ben a'r ffordd y mae wedi cael ei ystyried uchod o baragraff 28 ymlaen.

Casgliadau

74. Dof i'r casgliad bod y datblygiad a nodir yng nghais cynllunio amlinellol 2015 yn ddatblygiad a restrir yn Atodlen 1 ac y dylid bod wedi cynnal AEA mewn perthynas ag ef. Mae hyn yn dilyn fy nghasgliad bod y cais am ganiatâd cynllunio yn gyfystyr â newid i brosiect sy'n bodoli eisoes a restrir yn Atodlen 1 (caniatâd cynllunio 2010). Roedd y cais cynllunio amlinellol yn ceisio newid y dechnoleg nwyeddio at ddefnydd gwely hylifol ond, fel arall, roedd ar gyfer yr un prosiect, er gwaethaf newidiadau i gynllun a gweddluniau'r safle.
75. Mae'r ddyletswydd i gydweithio'n ddiffuant o dan gyfraith Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer unrhyw bwerau sydd ar gael iddynt o dan gyfraith ddomestig i atal y weithfa rhag dechrau gweithredu, neu atal gweithrediadau dros dro, nes i AEA gael ei gynnal, os bydd cymryd camau o'r fath yn gyfreithlon ac yn gymesur.
76. Rwyf wedi ystyried a yw'n fuddiol gwneud gorchymyn o dan adran 102 o Ddeddf 1990 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r defnydd o'r safle ar gyfer gweithfa ynni adnewyddadwy sy'n llosgi pren ddod i ben nes y bydd datganiad amgylcheddol wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ac wedi'i ystyried ganddynt.

77. Wrth benderfynu a yw'n fuddiol gwneud hynny, y prif faterion yw a oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol neu a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal ac a yw manteision atal gweithrediadau dros dro yn drech na chostau gwneud hynny.
78. Mae'r manteision a fyddai'n deillio o atal gweithrediadau dros dro tra byddai AEA yn cael ei gynnal yn golygu y byddai gwneud hynny'n cyd-fynd yn agosach â bwriad y gyfraith. Y bwriad yw sicrhau na fydd y posibilrwydd y ceir effeithiau sylweddol yn codi nes i AEA gael ei gwblhau (gan na fydd y gwaith a allai gael effeithiau o'r fath yn dechrau tan ar ôl i AEA gael ei gynnal).
79. Yn yr achos hwn, mae gwaith asesu amgylcheddol helaeth eisoes wedi'i wneud. Mae'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, heblaw'r effaith weledol na fyddai'n cael ei lliniaru gan orchymyn o dan adran 102. Hefyd, er nad oedd y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â'r cais cynllunio amlinellol yn helaeth iawn, mae digon o gyfleoedd i wneud sylwadau ar wybodaeth amgylcheddol wedi'u darparu ers hynny mewn cysylltiad â'r ystyriaeth a roddwyd i'r Drwydded Amgylcheddol gan CNC. Rwyf wedi ystyried y pwyntiau perthnasol a godwyd gan y sylwadau hynny yn fy mhenderfyniad heddiw. Unig ddiben fy marn ar effeithiau amgylcheddol yw penderfynu a ddylid atal gweithrediadau dros dro tra bydd AEA yn cael ei gynnal. Rwy'n dal i fod yn agored i'r posibilrwydd y daw gwybodaeth newydd i'r amlwg o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar fin cael ei gynnal.
80. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag atal gweithrediadau dros dro yn cynnwys colli enillion y datblygwr yn ystod y pedwar mis disgwylidig tra na fydd y safle yn cael ei ddefnyddio (a fyddai'n cael eu talu drwy iawndal gan y Llywodraeth yn ôl pob tebyg) a'r anfanteision economaidd a fyddai'n deillio o oedi cyn creu swyddi parhaol ar y safle.
81. Mae'r costau hyn yn llai ar hyn o bryd tra nad yw'r weithfa yn gweithredu ond byddant yn cynyddu.
82. Rwyf wedi ystyried sut y mae'n rhaid cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at y penderfyniad hwn, gan gynnwys y pum ffordd o weithio.
83. Rwyf wedi ystyried y ffaith na fydd y penderfyniad presennol, sef a ddylid atal y weithfa rhag gweithredu dros dro yn ystod proses yr AEA ai peidio, yn effeithio ar y penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol y weithfa, a fydd yn ystyried effeithiau hirdymor.
84. Gallai datblygu'r weithfa greu tensiwn rhwng amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu'r economi a diogelu'r amgylchedd. Wrth benderfynu a ddylid atal gweithrediadau dros dro, rwyf wedi ystyried sut y gellir parhau i weithredu'r weithfa, sy'n dod â manteision economaidd, mewn ffordd sy'n lliniaru effeithiau amgylcheddol.
85. Rwyf wedi ystyried bod hwn yn benderfyniad dros dro mewn proses sy'n mynd rhagddi a fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd drwy broses AEA ac y bydd gweithgarwch cysylltu yn helpu i lywio penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol hirdymor y weithfa. Rwyf wedi ystyried y nifer mawr o sylwadau a gyflwynwyd i Gyngor Bro Morgannwg a CNC ac yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod rwyf wedi bod yn ystyried yr achos hwn. Rwyf wedi defnyddio tystiolaeth amrywiaeth o sefydliadau sy'n

ymwneud â'r achos, gan gynnwys Cyngor Tref y Barri, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'ch grŵp chi, DIAG.

86. Mae'r penderfyniad wedi ystyried y potensial ar gyfer effeithiau amgylcheddol a'r gofyniad a hyrwyddir drwy'r Ddeddf i atal problemau rhag gwaethygu.
87. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf wedi ystyried amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ac effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion hynny.
88. Ar sail y dystiolaeth ger fy mron, rwyf o'r farn y byddai peidio ag atal y weithfa rhag gweithredu dros dro yn ystod cyfnod yr AEA yn cael effaith gadarnhaol gyfyngedig ar y nod o adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Hefyd, rhagwelir y byddai'n cael effaith gadarnhaol gyfyngedig ar y nod o adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl. Nodaf yr hyn a ddywedodd CNC am Botensial Cynhesu Byd-eang y weithfa a'i fod yn cael gwared â llosgi tanwydd naturiol wrth gynhyrchu trydan. Mae'r ystyriaeth a roddais i'r materion hyn yn cyfrannu at y nod o ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
89. Rwy'n cydnabod y gallai pryderon y rhai sy'n byw yn agos i'r weithfa gael effaith negyddol ar eu llesiant. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth ger fy mron na fydd gweithrediadau parhaol y weithfa yn ystod y broses AEA yn cael effaith andwyol ar iechyd y cyhoedd. Felly, rwyf o'r farn y gallai fy mhenderfyniad gael effaith negyddol gyfyngedig ar y nod o sicrhau bod ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. Fodd bynnag, nodaf hefyd y bydd y cyhoedd mewn sefyllfa i leisio'r pryderon hynny yn ystod y broses AEA ac y caiff y rhain eu hystyried yn llawn mewn benderfyniad terfynol a wneir mewn perthynas â'r weithfa.
90. Rwyf o'r farn y bydd y penderfyniad yn cael effaith niwtral ar yr amcanion llesiant eraill am fod y dystiolaeth yn dangos na fyddai'n cael effaith sylweddol arnynt y naill ffordd na'r llall.
91. Rwyf hefyd wedi ystyried canlyniadau negyddol atal gweithrediadau dros dro tra byddai AEA yn cael ei gynnal, gan gynnwys y niwed economaidd a achosir i'r ardal leol a'r effaith y byddai unrhyw iawndal a fyddai'n daladwy yn ei chael ar adnoddau cyhoeddus.
92. Rwyf wedi ystyried, o gofio dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru, a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol. Nodaf mai'r unig benderfyniad arall y gellid ei wneud yw atal y weithfa rhag gweithredu dros dro tra bydd yr AEA yn cael ei gynnal ac rwyf o'r farn y byddai penderfyniad i atal gweithrediadau dros dro yn cael effaith negyddol ar y nod o gefnogi pobl a busnesau er mwyn ysgogi ffyniant. O ganlyniad i hynny, rwyf o'r farn bod y penderfyniad i beidio ag atal gweithrediadau dros dro yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.
93. Nodaf yn benodol mai penderfyniad dros dro yw hwn mewn asesiad o effaith amgylcheddol y weithfa sy'n dal i fynd rhagddo. Dengys y dystiolaeth ger fy mron bod y weithfa yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd tra bydd proses AEA yn cael ei gynnal ac rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw manteision atal gweithrediadau dros dro tra bydd AEA yn cael ei gynnal yn drech na'r costau. O

ganlyniad, dof i'r casgliad nad yw'n fuddiol gorchymyn i'r defnydd o'r weithfa gael ei atal tra bydd AEA yn cael ei gynnal.

Sgrinio'r cais dan adran 73

94. Ym mharagraff 111 uchod, deuthum i'r casgliad y dylid trin ceisiadau o dan adran 73 fel newid neu estyniad i brosiect. Felly, byddai'r datblygiad a gynigir yng nghais cynllunio 2017/01080/FUL, sef ychwanegu tanc dŵr a lleoedd parcio, wedi bod yn gyfystyr â newid i'r prosiect a oedd wedi cael caniatâd cynllunio. Er bod y llythyr 'o fwriad i gyfarwyddo' yn gywir wrth nodi bod y prosiect yn brosiect a restrir yn Atodlen 1, rwyf wedi ailystyried y mater ac wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad a nodir yng nghais cynllunio 2017/01080/FUL wedi bod yn gyfystyr â newid i brosiect a restrir yn Atodlen 1, ond nad yw'r newid ynddo'i hun yn ateb y disgrifiad o ddatblygiad a nodir ym mharagraff 10. Felly, nid yw'r newid yn ddatblygiad a restrir yn Atodlen 1.
95. Y categori perthnasol o brosiectau yn y tabl yn Atodlen 2 fyddai 13(a). Y trothwy cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl yw a allai'r datblygiad, fel y'i newidiwyd neu y'i hestynnwyd, gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.
96. Am fod y cais o dan adran 73 wedi'i dynnu'n ôl, nid wyf yn bwriadu ystyried yr angen am AEA mewn perthynas â'r cais.

Y camau nesaf

97. Mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio amlinellol, bwriadaf gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y datganiad amgylcheddol a ddarparwyd gan y datblygwr.
98. Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, Cyngor Bro Morgannwg a'r ymgeisydd mewn perthynas â chais cynllunio 2017/01080/FUL drwy ei asiant, Power Consulting Midlands Ltd.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change